

DATGANIAD PRIFYSGOL CAERDYDD AR GAETHWASIAETH FODERN A MASNACHU POBL 2018

CYFLWYNIAD

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn torri hawliau dynol sylfaenol. Mae'n digwydd ar sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, gwaith dan orfod a masnachu pobl. Mae'r pethau hyn i gyd yn amddifadu person o'i ryddid er mwyn ei ecsbloetio er budd personol neu fasnachol.

Rydym ni'n ymrwymedig i wella ein harferion i fynd i'r afael â chaethwasiaeth a masnachu pobl. I allu gwneud hyn, rydym yn benderfynol o ddeall risgiau caethwasiaeth fodern a gwneud yn siŵr nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern yn ein busnes na'n cadwyni cyflenwi ein hunain.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei wneud yn unol ag adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn ffurfio ein datganiad ar gaethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31/07/2018. Yn ogystal, mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r hyn mae'r Brifysgol yn ei wneud o ran Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, y mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'w gefnogi.

STRWYTHUR SEFYDLIADOL

Rydym yn Brifysgol uchelgeisiol ac arloesol gyda gweledigaeth feiddgar a strategol, mewn prifddinas brydferth sy'n ffynnu. Daeth ein gwaith ymchwil rhagorol yn 5ed am ansawdd ac yn 2il am effaith ymysg prifysgolion y DU yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014. Rydym yn cynnig profiad addysgol rhagorol i'n myfyrwyr.

Drwy roi pwyslais ar greadigrwydd a chwilfrydedd, ein nod yw cyflawni ein rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, Cymru, a'r byd. Mae gennym drosiant blynyddol o £518M.

POLISIÂU

Mae'r Brifysgol yn adolygu ei pholisïau a'i gweithdrefnau i wneud yn siŵr eu bod yn glynu wrth ymrwymiad y Brifysgol i weithredu'n foesegol a gydag uniondeb yn ei holl berthnasau busnes ac i weithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol i ostwng y risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn unrhyw ran o gadwyni cyflenwi'r Brifysgol.

Mae'r polisïau a'r prosesau sydd ar waith yn cynnwys y canlynol:

- Cyflogwr Cyflog Byw Achrededig;
- Prosesau recriwtio a dethol, gan gynnwys contractau cyflogaeth a rheoliadau ar gyflogi gweithwyr ifanc;
- Glynu at, a monitro'r Gyfarwydddeb Oriau Gwaith;
- Trefniadau gweithio hyblyg i gefnogi'r hawl statudol galwedigaethol i gael amser i ffwrdd, sy'n gyffredinol yn well na'r trothwy isaf posibl;
- Proses werthuso swyddi sy'n berthnasol i bob swydd o fewn y sefydliad i sicrhau cyflog cyfartal am waith cyfartal;
- Fframwaith Caerdydd Proffesiynol ac Academydd Caerdydd sy'n nodi ymddygiadau disgwylidig o fewn y sefydliad;
- Polisi chwythu'r chwiban y gellir ei ddefnyddio i godi materion caethwasiaeth neu fasnachu pobl
- Canllawiau Gweithwyr Asiantaeth i wneud yn siŵr bod gweithwyr asiantaeth yn meddu ar hawliau sy'n gyfwerth â rhai staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Brifysgol.

EIN CADWYNI CYFLENWI

Mae'r Brifysgol yn diwallu ei hanghenion am nwyddau, gwasanaethau a gwaith mewn ffordd sy'n cyflawni gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran sicrhau buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i gymdeithas ac i'r economi, gan leihau niwed i'r amgylchedd hyd yr eithaf.

Er mwyn lliniaru risg y gadwyn gyflenwi, mae'r Brifysgol wedi dechrau'r broses o wneud cais am Ddatganiadau Caethwasiaeth Fodern gan yr holl gyflenwyr perthnasol.

Y prif gategoriâu sy'n peri risgiau materol yw cyflenwadau swyddfa, defnyddiau traul labordai, offer TGCh, Arlwygo a rhai gwasanaethau ystadau, megis gwasanaethau glanhau a diogelwch.

CYDWEITHIO

Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda nifer o sefydliadau prynu proffesiynol ar y cyd fel Sefydliad Arlwyr y Brifysgol (TUCO), ac mae'n aelod o Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru (HEPCW).

Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithio gyda'r Gymdeithas Caffael Addysg Uwch (HEPA) a sefydliadau ar draws y sector, fel aelod o Grŵp Caffael yn Gyfrifol HEPCA.

PROSESAU DIWYDRWYDD DYLADWY O RAN CAETHWASIAETH A MASNACHU POBL

Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd dyledus diwydrwydd a monitro effaith ac effeithiolrwydd.

Mae ein dogfennau tendro diwygiedig wedi cael eu diweddarau i gynnwys cwestiynau ynghylch polisiâu cynigwyr a gweithdrefnau i ddarganfod a chael gwared o lafur dan orfod yn eu gweithrediadau eu hunain. I wneud yn siŵr bod pawb yn ein cadwyn gyflenwi caffael yn cydymffurfio â'n gwerthoedd, mae ein telerau cytundeb yn ei wneud yn ofynnol ar ein cyflenwyr i gymryd pob mesur rhesymol i wneud yn siŵr nad oes unrhyw fath o gaethwasiaeth yn eu cadwyni cyflenwi uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Er mwyn cynnal dadansoddiad mwy manwl o berygl yn ein cadwyn gyflenwi, amlinellwyd pedwar cam isod:

Cam un: Nodi sefydliadau o fewn ein cadwyn gyflenwi

Nodwyd sefydliadau o fewn ein cadwyn gyflenwi haen gyntaf ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Gan ddibynnu ar faint a chymhlethdod y gadwyn gyflenwi, gallai fod nifer o lefelau er mwyn adnabod y prif ddarparwr, ac nid yw'n dasg syml.

Defnyddiwyd y wybodaeth uchod i asesu risg posibl pob cyflenwr yn y gadwyn gyflenwi, yn seiliedig ar natur eu busnes a'r prosesau sydd ganddynt ar waith, er mwyn nodi a chanolbwyntio ar y rhai sy'n cynrychioli'r risg mwyaf.

Cam dau: Nodi risg

Gellir dadansoddi risg caethwasiaeth fodern ar gyfer unrhyw gadwyn gyflenwi yn ôl gwahanol feini prawf, fel gwlad, nwyddau a nodweddion y diwydiant. Rydym wedi asesu risg o ran ein cyflenwyr haen gyntaf ac wedi nodi'r cyflenwyr a'r categorïau sy'n peri'r risg fwyaf. Dyma'r prif gategoriâu sy'n cario risgiau materol:

Cyflenwadau swyddfa;
Defnyddiau traul labordai;
Arlwyo;
Offer TGCh;
Gwasanaethau rheoli cyfleusterau ystadau, fel glanhau a gwasanaethau diogelwch; ac
Asiantau a phartneriaethau rhyngwladol.

Mae Cofrestr Risg Caethwasiaeth Fodern yn cael ei chreu, fydd yn cofnodi cyflenwyr â risg uchel fesul categori, y risgiau sy'n gysylltiedig â phob categori, camau lliniaru risg, risg weddilliol a champau pellach ar gyfer gwella.

Cam tri: Ymgysylltu â'ch cyflenwyr

Cysylltwyd â chyfran sylweddol o gyflenwyr sy'n peri'r risg fwyaf i'r Brifysgol er mwyn sefydlu gofynion sylfaenol, ac asesu cymhwysedd y busnes hwnnw i reoli'i lwyth gwaith yn gyfreithiol a moesegol.

Ar yn o bryd, mae'r Brifysgol yn cydweithio â chonsortia pwrcasu Addysg Uwch eraill a sefydliadau eraill ar brosesau asesu risg a diwydrwydd dyladwy er mwyn rhannu arferion da ac osgoi dyblygu ymdrechion ar gyfer y Brifysgol yn ogystal â chyflenwyr allanol.

Cam Pedwar: Rheoli'r Bartneriaeth


Bydd y Brifysgol yn rhoi dull o weithio gyda chyflenwyr o risg uchel ar waith, er mwyn monitro bod cydymffurfiaeth â'r safonau y cytunwyd arnynt, a sefydlu cynlluniau gweithredu i wella perfformiad, lle bo angen.

Caiff dull o wella parhaus ei roi ar waith er mwyn hyrwyddo cydberchnogaeth ar gynlluniau camau cywirol a chodi safonau. Cynhelir cyfarfodydd adolygu ffurfiol rhwng y Brifysgol a'r cyflenwr i adolygu cynnydd.

HYFFORDDIANT

Bu uwch-staff Gwasanaethau Caffael yn cymryd rhan mewn gweminarau a chyflwyniadau, ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi, 'Caffael a Chyflenwi Moesegol' yn llwyddiannus.

Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer hyfforddi staff mewn categorïau risg uchel.



Yr Athro Stuart Palmer
Cadeirydd y Cyngor

Cymeradwywyd yng Nghyngor Prifysgol Caerdydd 26 Tachwedd 2018